# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Datganiad Polisi Amgylcheddol 2014-15

Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n sicrhau bod yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sy'n ofynnol ar gyfer gweithrediad effeithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu darparu. Ein nod yw bod yn sefydliad enghreifftiol o ran cynaliadwyedd, a sicrhau bod ein gwasanaethau yn cael eu darparu'n effeithlon, gan roi sylw dyledus i'r egwyddor o hyrwyddo datblygiad cynaliadwy.

Caiff ein gwaith o ddydd i ddydd effaith ar yr amgylchedd, a hynny, yn bennaf, drwy ddefnyddio adnoddau (ynni, dŵr a phapur), drwy deithio a chreu gwastraff.

Mae Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i:

– Sicrhau bod ein hadeiladau yn cael eu defnyddio'n effeithlon, a chwilio am gyfleoedd i hybu rhinweddau cynaliadwy ein hystâd, a'r Senedd yn benodol, ymysg ein rhanddeiliaid, y cyhoedd a'r rhai sy'n ymweld â'n hystâd.

– Sicrhau bod pob aelod o staff, yr Aelodau a'u staff cymorth a defnyddwyr eraill ein hadeiladau yn deall yn llwyr y cyfraniad y gallant ei wneud i wella ein perfformiad amgylcheddol.

– Lleihau i'r eithaf y defnydd o adnoddau naturiol wrth ddarparu ein gwasanaethau, yn arbennig ynni, dŵr a phapur, lleihau gwastraff ac atal llygredd.

– Neilltuo amser ac adnoddau priodol i wella effeithlonrwydd ein hystâd wrth ddefnyddio ynni.

– Lleihau'r angen i deithio, pan fo'n briodol; a hyrwyddo teithiau cyfrifol a chynaliadwy wrth gyflawni ein dyletswyddau.

– Gosod ystyriaethau o ran cynaliadwyedd yn ganolog yn ein prosesau tryloyw o wneud penderfyniadau, a'u cyfuno ag egwyddorion prynu sy'n ffafrio'r cynnyrch a'r gwasanaethau hynny sy'n achosi'r niwed lleiaf i'r amgylchedd.

– Cynllunio, addasu a sicrhau bod adnoddau/camau digonol ar waith i sicrhau bod ein hasedau yn cael eu diogelu at y dyfodol yn erbyn heriau a ddaw yn sgîl hinsawdd sy'n newid.

– Cydymffurfio â'r holl reoliadau a safonau amgylcheddol perthnasol ac â chodau ymarfer eraill.

– Monitro cynnydd a'i gofnodi yn ôl amcanion a thargedau heriol, er mwyn sicrhau ein bod yn gwella'n barhaus.

– Datblygu diwylliant o gyfrifoldeb amgylcheddol ymysg defnyddwyr ein hadeiladau, ein contractwyr, ein cyflenwyr a'r rhai sy'n ymweld â'n hadeiladau.

– Gwneud yn ofynnol bod ein cyflenwyr a'n contractwyr yn sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau a brynir yn cefnogi ein polisi amgylcheddol.

Mae'r datganiad polisi hwn yn berthnasol i ystâd y Cynulliad drwyddi draw (gan gynnwys Tŷ Hywel, y Senedd, y Pierhead a swyddfa Bae Colwyn) a chaiff ei adolygu bob blwyddyn a'i ddarparu i holl staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ein mewnrwyd, ac i bobl eraill sydd â diddordeb drwy ein gwefan. Bydd y datganiad yn rhan o gontract y cyflenwyr sy'n defnyddio ein safle, a bydd ar gael i unrhyw un ar gais.



**Peter Black AC/AM**

Comisiynydd y Cynulliad sy'n gyfrifol am Gynaladwyedd / Assembly Commissioner for the Sustainable Assembly

**Llofnodwyd:**



**Claire Clancy**

Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad/Chief Executive and Clerk to the Assembly

**Llofnodwyd:**

Cyhoeddwyd: Mai 2014
Adolygir: Mai 2015